# Tasg 1

# Agor ffordd osgoi Port Talbot

1. Rhowch y digwyddiadau hyn yn eu trefn, o **un** i **bump**.

| | |
|---|---|
| Ffordd osgoi Port Talbot, neu'r A48(M), yw rhan gyflymaf y daith ar draws de Cymru | |
| Prynu tai drwy orchymyn gorfodol | |
| Tagfeydd traffig ar yr hen ffordd drwy Bort Talbot | |
| Codi pileri mawr i gario'r ffordd osgoi | |
| Cyfyngiadau cyflymder ar y darn o'r M4 sy'n mynd heibio i Bort Talbot | |

2. Beth yw prif broblemau byw wrth ymyl traffordd, yn ôl yr ymson?

3. Darllenwch yr ail baragraff eto. Beth yw ystyr 'gorchymyn prynu gorfodol'? Ydych chi wedi clywed am rywbeth tebyg yn digwydd yn eich ardal chi er mwyn i ddatblygiad newydd ddigwydd?

4. Dewiswch a chopïwch gymhariaeth o'r ymson.

5. Sut mae agwedd y person o Bort Talbot at y 'ffordd osgoi' wedi newid rhwng 1965 a 2016?

6. Gwnewch gasgliad o'r geiriau yn yr ymson sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth.

7. Chwiliwch am eiriau neu ymadroddion yn yr ymson sy’n golygu’r un peth â’r geiriau neu’r ymadroddion hyn:

a) yn anffodus

b) erbyn hyn

c) gweithio’n galed

ch) torri rhywbeth yn ei hanner

d) annymunol

dd) teithio’n gyflym

e) tyfu, mynd yn fwy

f) yr oriau prysuraf

g) gwneud sŵn fel pryfed

Defnyddiwch bum gair neu ymadrodd o’r ymarfer uchod (y golofn ar y dde) yn eich brawddegau gwreiddiol eich hun.

8. Sut mae camerâu cyflymder cyfartalog yn wahanol i gamerâu cyflymder arferol?
50mya yw’r cyfyngiad cyflymder ar y rhan hon o’r ffordd. Sut gallech chi osgoi cael tocyn os ydych chi wedi gyrru ar 60mya am ychydig o amser?

9. Ysgrifennwch dair brawddeg ychwanegol sy’n dilyn y patrymau hyn, ond gan newid y geiriau italig.

i) Oherwydd *ei bod hi’n braf*, mae’n anodd *peidio ag agor y ffenestri*.

ii) Ond rhaid cyfaddef, *fydd Port Talbot byth yr un fath.*

iii) Profiad annifyr braidd yw *gweld y ceir yn gwibio ar y draphont uwch ein pennau*.

iv) Erbyn meddwl, efallai y byddai wedi bod yn well petaen ni *wedi gorfod symud.*

10. Edrychwch ar y gair: traphont. Pa ddwy elfen sy'n rhan o'r gair? Pa newid mae tra- yn ei wneud i sain y gair sy'n ei ddilyn? Beth yw ystyr traphont?

    Dyma rai geiriau tra- eraill: traffordd, trallwysiad, tramor, tra-arglwyddiaethu, trachywir. Edrychwch mewn geiriadur i weld beth yw union ystyr y geiriau hyn.

11. Oes angen ffordd newydd yn eich ardal chi? Paratowch ddadleuon o blaid ac yn erbyn y ffordd.

12. Beth yw problemau trafnidiaeth eich ardal chi? Gallai'r rhain gynnwys trafnidiaeth gyhoeddus a thrafnidiaeth mewn ceir preifat.

13. Ysgrifennwch lythyr at olygydd y papur newydd lleol am eich pryderon am drafnidiaeth yn lleol, gan seilio eich llythyr ar y pwyntiau a drafodoch chi yn 11. a 12. uchod.